



De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

CYNLLUN HEDDLU A THROSEDDU DE CYMRU **2018-21**

CRYNODEB GWEITHREDOL



Cyhoeddir y fersiwn newydd hon o Gynllun yr Heddlu a Throseddu ar gyfer De Cymru ar drobwyt yn ein hanes. Daw i rym ar 1 Ionawr 2018 wrth i Brif Gwnstabl newydd ymuno yn dilyn ymddeoliad Peter Vaughan QPM ar ôl wyth mlynedd lwyddiannus iawn wrth y llyw. Mae pum mlynedd wedi mynd heibio ers ethol Comisiynydd cyntaf yr Heddlu a Throseddu a sefydlu ethos cydweithredol cryf fel ein dull gweithredu ar y cyd o gadw ein cymunedau'n ddiogel.

Anelwn at weithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod pobl yn cael yr ymateb sydd ei angen arnynt, pan fo ei angen arnynt, ac atal pobl rhag dioddef trosedd neu gyflawni trosedd.

Fel y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl rydym yn rhannu egwyddorion a gwerthoedd y mae'r Cynllun Heddlu a Throseddu hwn yn seiliedig arnynt. Mae cydweithredu wrth wraidd popeth a gwnawn. Ein nod yw sicrhau mai ni yw'r gorau o ran deall ac ymateb i anghenion ein cymunedau. Mae hynny'n golygu gwrandao ar bawb, diogelu pobl sy'n agored i niwed, cynnal lefelau uchel o foddhad dioddefwyr a gweithio gyda phartneriaid, yn enwedig o fewn llywodraeth leol, y sector ieched, y sector gwirfoddol a chymunedol a Llywodraeth Cymru.

Gan fod gennym lai o arian - ers 2010 mae'r arian a dderbynnir gan Heddlu De Cymru gan Lywodraeth y DU wedi lleihau 21% yn nhermau arian parod (dros 35% mewn termau real), mae'n rhaid i ni arloesi er mwyn dod o hyd i ffyrdd newydd o roi ein gweledigaeth ar waith. O ganlyniad, rydym hyd yn oed yn fwy penderfynol o ganolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar a chymryd camau cadarnhaol yn brydlon a gweithio gyda phartneriaid fel ein bod yn crebachu gyda'n gilydd, yn hytrach na chrebachu ar wahân, ac yn gweithio'n fwy effeithiol byth ar y cyd.

Ni allwn ganiatáu i'r gwasanaeth yr ydym yn ei gynnig barhau i ddirywio, ac nid ydym yn barod i dynnu'n ôl o gymunedau lleol na throseddau lefel isel a allai arwain at droseddau mwy difrifol. Adeiladu cymunedau diogel, hyderus a chadarn yw'r ffordd orau o ddefnyddio ein hadnoddau ac adnoddau asiantaethau cyhoeddus eraill yn effeithiol. Dyna pam rydym ni a'n timau arwain yn chwarae rhan lawn mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r gwaith a gyflawnna'r weledigaeth ddiwygiedig o Diogelwch Cymunedol yng Nghymru yn lleol, ynghyd â llywodraeth leol a phartneriaid eraill.

Mae ein cyflawniadau hyd yma wedi creu sylfaen gadarn ar gyfer gwaith pellach ond mae angen i ni geisio gwella ein gwasanaeth ac ymateb yn effeithiol i ofynion newydd o hyd. Cynllun yr Heddlu a Throseddu De Cymru sy'n sail i'n hymateb a bydd yn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth rhagorol i gymunedau De Cymru.

Gallwch ddarllen y cynllun llawn yma: southwalescommissioner.org.uk



Y Gwir Anrh Alun Michael

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru



Matt Jukes QPM

Prif Gwnstabl

CYFLAWNI MWY GYDA'N GILYDD TUAG AT DDE CYMRU MWY DIOGEL

**NI FYDD YMCHWILIAD
NAC YMATEB BYTH YN
WELL NAG ATAL TROSEDD
YN Y LLE CYNTAF. MAE'N
RHAI CADW HYN FEL EIN
BLAENORIAETH.**

*Matt Jukes QPM
Prif Gwnstabl*

**CYDWEITHREDU YW'R
BRIF EGWYDDOR SY'N
EIN HYSBRYDOLI. GYDA'N
GILYDD, GALLWN
GYFLAWNI MWY NAG Y
GALLWN EI GYFLAWNI AR
EIN PEN EIN HUNAIN.**

*Y Gwir Anrh Alun Michael
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru*

Mae'r dyfodol bob amser yn ansicr ond dyma'r egwyddorion a wnaiff sicrhau ein bod ar y trywydd iawn wrth i ni barhau ar ein taith tuag at Dde Cymru hyd yn oed yn fwy diogel:

- Atal troseddau, a chefnogi cymunedau diogel, hyderus a chryf yw cyfrifoldeb cyntaf yr heddlu
- Rhaid i wasanaethau cyhoeddus fod yn arloesol ac yn uchelgeisiol, gan grebachu gyda'i gilydd, nid ar wahân, gan ganolbwyntio ar wasanaethau cynaliadwy
- Rhaid i dueddiadau troseddol a'u hachosion craidd gael eu nodi a'u trechu'n gyflym
- Mae'r materion a wynebwr gan ein cymunedau yn galw am ymyrraeth gynnar, ynghyd â chymunedau gweithredu prydlon a chadarnhaol ar sail tystiolaeth ac wedi'u datblygu mewn partneriaeth
- Rhaid i ni gydweithio tuag at les cenedlaethau'r dyfodol gan gynnig y cymorth sydd ei angen ar bobl pan fo ei angen arnynt.

Rydym ill dau wedi manteisio ar y cyfle i fod yn aelodau llawn o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydlwyd o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol sydd â'r potensial i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Ceir manylion llawn y genhadaeth, y weledigaeth, y gwerthoedd a'r egwyddorion yng Nghynllun llawn yr Heddlu a Throseddau yn


southwalescommissioner.org.uk



CYDWEITHIO I GADW DE CYMRU YN DDIOGEL

RYDYM WEDI CYFLAWNI CRYN DIPYN O NODAU CYNLLUN CYNTAF YR HEDDLU A THROSEDDU, GAN EIN RHOI MEWN SEFYLLFA GADARN I WYNEBU'R HERIAU O'N BLAENAU, WRTH GYDNABOD BOD LLAWER IAWN O WAITH I'W WNEUD O HYD.

Dyma rai enghreifftiau o'r hyn a gyflawnwyd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, ar y cyd â'u timau a chyda phartneriaid hyd yn hyn:



Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched

Parhau i ganolbwyntio ar ddioddefwyr troseddau

Rydym wedi mynd o fod yn un o'r heddluoedd gwaethaf o ran boddhad dioddefwyr i fod yn un o'r rhai gorau yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn o ganlyniad uniongyrchol i wrando ar bobl sydd wedi profi trosedd, gan roi dioddefwyr wrth wraidd yr hyn a wnawn, a newid y ffordd rydym yn cofnodi troseddau i adlewyrchu hyn. Rydym hefyd wedi lansio gwasanaeth newydd i ddiwallu anghenion dioddefwyr yn well.

Mae nodi achosion o gam-drin domestig yn gynnar yn allweddol er mwyn cadw pobl yn ddiogel. Rydym wedi blaenoriaethu mentrau sy'n ein galluogi i gymryd camau gweithredu cadarnhaol, prydlon ac sy'n diwallu anghenion dioddefwyr, yn gwella diogelwch ac yn dwyn y rhai sy'n cyflawni troseddau i gyfrif. Drwy gydweithio'n llwyddiannus â rhanddeiliaid, gan gynnwys y trydydd sector, y sector iechyd, prifysgolion a landlordiaid, rydym wedi gwella mynediad at gymorth ac mae mentrau fel DRIVE, IRIS a TALK yn dangos ein hymrwymiad i ddioddefwyr a'r ffordd rydym yn herio'r rhai sy'n cyflawni troseddau.

Diogelu pobl agored i niwed

Rydym wedi adolygu'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn Ne Cymru i fynd i'r afael ag achosion o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant ac wedi comisiynu Barnado's i roi help arbenigol ystyriol i'r sawl sydd wedi cael eu cam-drin. Rydym yn cefnogi dioddefwyr troseddau a dargedwyd oherwydd eu hil, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Rydym yn helpu pobl hŷn i deimlo'n ddiogel drwy fynd i'r afael â sgamiau, sy'n broblem gynyddol, gan gynnwys troseddau ar-lein, drwy roi cyngor Get Safe Online ar ein gwefan.



Defnyddio technoleg yn y frwydr yn erbyn trosedd

Rydym yn chwyldroi plismona drwy dechnoleg. Mae Rhaglen 'Fusion' yn fenter gydweithredol rhwng Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent, sy'n helpu'r ddau heddlu i ostwng troseddau, lleihau costau, a darparu gwasanaeth yr heddlu effeithiol ac effeithlon drwy sicrhau bod ein swyddogion yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf, gan roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt pan fo ei hangen arnynt.



Adeiladu gweithlu mwyn cynrychiadol

Rydym wedi newid ein ffordd o weithredu er mwyn sicrhau bod gweithlu'r dyfodol yn cynrychioli'r cymunedau a wasanaethwn yn well. Cefnogwn bobl o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME) sydd â diddordeb mewn gyrfa gyda ni, gan gynnwys Hyrwyddwyr Datblygu, sy'n rhoi cymorth mentora personol, a digwyddiadau i hyrwyddo'r amrywiaeth o rolau o fewn gwasanaeth yr heddlu i bobl ifanc o wahanol gefndiroedd na chânt gyfle fel arall efallai i ddysgu am yr heddlu. Hyrwyddwn fenywod yn y gweithle.



Gweithio i ostwng troseddu treisgar

Bu Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid eraill yn gweithio gyda ni i wella systemau rhannu gwybodaeth er mwyn targedu adnoddau lle mae eu hangen fwyaf. Rydym wedi cyflwyno Man Cymorth Abertawe a'r ymgyrch #YfwchLaiMwynhewchFwy er mwyn gwneud canol ein dinasoedd hyd yn oed yn fwy diogel liw nos. Gweithredwn bolisi dim goddefgarwch o ran ymosodwyr rhywiol ac rydym yn hyfforddi staff drysau ac eraill i adnabod unigolion o'r fath a'r rhai a all fod mewn perygl o'u herwydd.

Cefnogi pobl ifanc

Caiff ein Rhaglen Gwirfoddolwyr Ifanc yr Heddlu ei chyflwyno i bobl ifanc mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn Ne Cymru. Rydym wedi cyflwyno dull gweithredu newydd i ostwng cyfraddau aildroseddu yn y grŵp oedran 18-25 ac wedi hyrwyddo newid radical, gyda phartneriaid yn y sector iechyd a llywodraeth leol er mwyn gostwng cyfraddau aildroseddu ymhellach a chadw pobl ifanc allan o'r System Cyfiawnder Troseddol. Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i ganolbwyntio ar ostwng cyfraddau troseddu ac aildroseddu ymhlith pobl ifanc.




System Cyfiawnder Troseddol fwy effeithlon

Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i uno'r byrddau sy'n pennu cyfeiriad strategol y System Cyfiawnder Troseddol yn Ne Cymru, gan wneud pethau'n fwy effeithlon ac effeithiol. Mae'r Comisiynydd hefyd wedi sefydlu panel craffu er mwyn galluogiartneriaid Cyfiawnder Troseddol, gan gynnwys cynrychiolwyr ynadon, i wneud yn siŵr y caiff gorchmynion gwaredu y tu allan i'r llys eu defnyddio'r gywir ac yn effeithiol, ac rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i roi gwasanaeth newydd ar waith i gefnogi troseddwr ag anghenion camddefnyddio sylweddau ledled De Cymru.

Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol

Rydym yn gweithio'n effeithiol i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a diogelu pobl sy'n agored i niwed, yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac, ar gais Llywodraeth Cymru, yn helpu darparwyr tai cymdeithasol i ateb yr her. Rydym yn defnyddio dulliau adferol, yn ymgynghori â dioddefwyr ynglŷn â chosbau ac yn defnyddio'r Sbardun Cymunedol i roi llais i ddioddefwyr.





2012

Strategaeth ariannu praesept
yn diogelu plismona
cymunedol rhag cyni cyllidol

Cynllun cyntaf yr
Heddlu a Gostwng
Troseddu ar gyfer
De Cymru

HEDDLU DE CYMRU

Yn 1969 unwyd pum cwnstabliaeth i ffurfio Heddlu De Cymru. Mae ein sefydliad wedi wynebu sawl her ar hyd y ffordd; o gael ein labelu'n un o'r heddluoedd gwaethaf o ran boddhad dioddefwyr i ddod yn un o'r rhai gorau yn y DU, o blismona ein cymunedau yn ystod streic y Glowyr i blismona llawer o ddigwyddiadau lleol a rhyngwladol. Mae'r profiadau hyn wedi esgor ar y dull modern o blismona cymunedau y caiff ein swyddogion eu hadnabod a'u parchu amdano.


Alun Michael yn
cael ei ethol yn
Gomisiynydd yr
Heddlu a Throseddu
cyntaf De Cymru

Dogfen "Hallmarks" yn
nodi'r cyd-drefniadau
rhwng y Prif Gwnstabl
a'r Comisiynydd

2013

Peter Vaughan y
Prif Gwnstabl yn
cael ei benodi'n
Is-Lwydd
Cymdeithas Prif
Swyddogion yr
Heddlu

TAITH HEDDLU



U DE CYMRU



2016

Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau 'Dyfodol' yn mynd yn fyw

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i roi'r Concordat Iechyd Meddwl ar waith

Lansio gwasanaeth newydd sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr

Compact gweithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol

Alun Michael yn cael ei ailethol yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru

Rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr yng Nghaerdydd

Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu asesiadau llesiant ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

2017

£1.4m o Gronfa Drawsnewid yr Heddlu yn cael ei roi er mwyn helpu i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched

Peter Vaughan yn ymddeol o'i swydd fel Prif Gwnstabl ym mis Rhagfyr 2017

Canolfannau Diogelu Aml-asiantaeth wedi'u cyflwyno ledled De Cymru

Ein gweithlu yn cynrychioli'r cymunedau a wasanaethir gennym yn well



2021

Ystad yr heddlu yn
addas at y diben

2019

2020

Cynllun
Heddlu a
Throseddu De
Cymru yn dod
i ben

2018

Matt Jukes QPM
yn cael ei benodi'n
Brif Gwnstabl
Heddlu De Cymru,
mis Ionawr 2018



Etholiad
Comisiynydd
yr Heddlu a
Throseddu -
Mai 2020

Dull cydlynol ac
integredig o reoli
troseddwyd ledled De
Cymru

Yn gyson â
chynlluniau lles
Awdurdodau Lleol
a gweithredu Deddf
Cenedlaethau'r
Dyfodol

Gwybodaeth a
chynngor Get Safe
Online ar gael
i bob swyddog
drwy dechnoleg
symudol



EIN BLAENORIAETHAU

Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyfrifoldeb cyfreithiol i bennu'r blaenoriaethau plismona ar gyfer De Cymru drwy Gynllun yr Heddlu a Throseddu. Yn Ne Cymru, gwneir hyn mewn partneriaeth â'r Prif Gwnstabl, yn seiliedig ar werthoedd ac egwyddorion a rennir ac mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd a phartneriaid.



**BYDDWN YN GOSTWNG
AC YN ATAL TROSEDDU
AC YMDDYGIAD
GWRTHGYMDEITHASOL
ER MWYN CADW POBL YN
DDIOGEL AC YN HYDERUS
YN EU CARTREFI A'U
CYMUNEDAU**



**BYDDWN YN YMGYSYLLTU
Â'N CYMUNEDAU, YN
EU CYNNWYS AC YN EU
HYSBYSU, GAN WEITHIO
GYDA PHARTNERIAID O FEWN
LLYWODRAETH LEOL, IECHYD,
TÂN A LLYWODRAETH CYMRU I
DDATBLYGU CYDNERTHEDD**



**BYDDWN YN GWEITHIO
I DDIOGELU AELODAU
MWYAF AGORED I NIWED
EIN CYMUNEDAU, DEALL
PROBLEMAU A CHYMRYD
CAMAU PRYDLON A
CHADARNHAOL WRTH
I FATERION GODI**



**BYDDWN YN GWEITHIO
I WNEUD Y SYSTEM
CYFIAWNDER TROSEDDOL
LEOL MOR EFFEITHIOL AC
EFFEITHLON Â PHOSIBL ER
MWYN DIWALLU ANGHENION
DIODDEFWYR A LLEIHAU
AILDROSEDDU**



**BYDDWN YN CYFRANNU
AT Y GOFYNIAD PLISMONA
STRATEGOL AC YN PLISMONA
DIGWYDDIADAU MAWR YN
LLWYDDIANNUS**



**BYDDWN YN GWARIO EICH
ARIAN YN DDOETH AC YN
CEFNOGI EIN POBL ER MWYN
DARPARU'R GWASANAETH
PLISMONA GORAU POSIBL YN
EICH CYMUNED**



De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
southwalescommissioner.org.uk

YMYRRAETH GYNNAR A CHAMAU GWEITHREDU CADARNHAOL, PRYDLON: DULL GWEITHREDU HEDDLU DE CYMRU A CHADARNHAOL

Mae lefelau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Ne Cymru ymhlith eu hisaf erioed ond erys y galw am wasanaethau'r heddlu yn uchel ar adeg o gyni cyllidol a thoriadau parhaus. Rhaid arloesi'n barhaus er mwyn cynnal gwasanaethau cyhoeddus a chadw De Cymru'n ddiogel.

Yr heddlu'n aml yw'r asiantaeth gyntaf i fod mewn cysylltiad â phlant neu deuluoedd sydd angen help. Rydym am fod yn rhan o'r ateb sy'n atal problemau rhag cyrraedd y pwynt lle mae angen y gwasanaethau brys ar bobl.

Mae ymyrraeth gyntaf yn helpu i atal problemau cyn iddynt waethgu, yn atal pobl rhag dod yn ddioddefwyr, yn atal pobl rhag troseddau ac yn lleihau'r galw ar yr heddlu a'n partneriaid.

Golyga nodi problemau'n gyflym a gweithio gyda phartneriaid i ddod o hyd i atebion cynaliadwy, fel y Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth neu Gynllun Gwirfoddolwyr Ifanc yr Heddlu.

Our approach will be focused on early intervention combined with prompt, positive action and working with our partners to develop new approaches that meet the needs of our communities.

Caiff hyn ei adlewyrchu yn ein gwaith gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru lle rydym yn defnyddio'r ymchwil i Brofiadau Niweidiol mewn Plentynod i ddatblygu mentrau i atal y cylch niwed, cynorthwyo unigolion sy'n agored i niwed a lleihau'r galw cyffredinol ar wasanaethau.

Mae'r gwaith hwn wedi profi y tu hwnt i amheuaeth y byddai atal Profiadau Niweidiol mewn Plentynod yn gostwng troseddau a niwed i iechyd a chymdeithas yn sylweddol.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi chwarae rhannau blaenllaw gyda'n partneriaid wrth sicrhau bod Cymru yn arwain y byd o ran delio ag effaith Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentynod.

GALLAI ATAL PROFIADAU NIWEIDIOL Mewn Plentynod i GENEDLAETHAU'R DYFODOL OSTWNG LEFELAU:



**DEFNYDD HEROIN/
COCÊN 66%**
(gydol oes)



CARCHARU 65%
(gydol oes)



CYFLAWNI TRAIS 60%
(y flwyddyn ddiwethaf)



DIODDEF TRAIS 57%
(y flwyddyn ddiwethaf)



**DEFNYDD
CANABIS 42%**



**BEICHOGRWYDD
ANFWRIADOL
YMHLLITH
MERCHED YN EU
HARDEGAU 41%**



**YFED RISG
UCHEL 35%**



**RHYW
CYNNAR 31%**
(cyn 16 oed)



**YSMYGU
TYBACO NEU
E-SIGARÊTS 24%**
(cyffredol)



DEIET GWael 16%
(<2 ddogyn o
ffrwythau a llysiau
bob dydd ar hyn o
bryd)

Rydym yn cefnogi mentrau sydd yn barod yn cynnwys Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentynod. Os yw'n rhy hwyr i'w atal nid yw'n rhy hwyr i gymryd camau cadarnhaol prydlon.

Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

BLAENORIAETH 1

BYDDWN YN GOSTWNG AC YN ATAL TROSEDDU AC YMDDYGIAD
GWRTHGYMDEITHASOL ER MWYN CADW POBL YN DDIOGEL AC YN HYDERUS
YN EU CARTREFI A'U CYMUNEDAU

Gostwng troseddu yw'n prif ddiben. Byddwn yn ddiostur o ran trosedd a'r hyn sy'n ei hachosi, gan nodi'r prif faterion ac ymdrin â hwy drwy ymyrraeth gynnar a chamau gweithredu prydlon a chadarnhaol yn seiliedig ar dystiolaeth, partneriaeth a gwerthuso "yr hyn sy'n gweithio".

Sut rydym yn gwneud hyn:

Plismona Lleol

- Sicrhau bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yn rhan lawn o'u cymunedau lleol ac yn meddu ar y sgiliau i rymuso pobl i ddod o hyd i atebion lleol
- Cysylltu Swyddogion yr Heddlu sy'n gweithio mewn ysgolion, timau troseddau ieuenctid a thimau plismona lleol
- Arwain camau i fynd i'r afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol gyda phartneriaid mewn llywodraeth leol a darparwyr tai cymdeithasol
- Gweithio gyda phobl ifanc i ehangu ein cynllun Gwirfoddolwyr Ifanc yr Heddlu yn Ne Cymru
- Recriwtio mwy o Gwnstabiliaid Gwirfoddol o bob rhan o'n cymunedau

Gweithio o fewn cymunedau

- Helpu cymunedau lleol i chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ddatrys problemau lleol gan weithio gyda Gwarchod Cymdogaeth, Movement for Change a Citizens UK
- Mabwysiadu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gam cynnar gydag aelodaeth weithredol lawn o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Gweithio gyda phartneriaid i ymgorffori'r Ddeddf Cymdogaethau Glân
- Hyrwyddo effeithiolrwydd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol

Mynd i'r Afael â Throseddau Treisgar

- Datblygu dull mwy effeithiol o drwyddedu ac ymdrin â'r economi liw nos
- Gweithio i ostwng troseddu treisgar drwy rannu a dadansoddi data amlasiantaeth a gweithio gyda phartneriaid fel Iechyd Cyhoeddus Cymru i hyrwyddo mentrau ymyrraeth gynnar ac atal
- Parhau i ddatblygu mentrau - fel Man Cymorth Abertawe - i ddiogelu'r cyhoedd a lleihau pwysau ar wasanaethau cyhoeddus sy'n deillio o'r economi liw nos



BLAENORIAETH 2

BYDDWN YN YMGYSYLLTU Â'N CYMUNEDAU, YN EU CYNNWYS AC YN EU HYSBYSU, GAN WEITHIO GYDA PHARTNERIAID O FEWN LLYWODRAETH LEOL, IECHYD, TÂN A LLYWODRAETH CYMRU I DDATBLYGU CYDNERTHEDD

Yn ôl gwaith ymchwil mae angen i gymunedau gael mwy o wybodaeth am waith Heddlu De Cymru a sut i gael gafael ar wasanaethau. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn ail-lansio 101 er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cysylltu â ni'n hyderus a chael ymateb prydlon a chadarnhaol fel eu bod yn profi gwasanaethau sydd ymhlith y gorau yng Nghymru a Lloegr.

Sut rydym yn gwneud hyn:

Cynnwys

- Sicrhau bod ein gwasanaeth yn adlewyrchu ein cymunedau'n well, yn enwedig cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sydd wedi'u tangynrychioli'n ddifrifol ar hyn o bryd
- Gwella cyfraddau recriwtio, cadw a datblygu menywod o fewn Heddlu De Cymru
- Rhoi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar waith
- Deall y dulliau cyfathrebu sydd fwyaf effeithiol i'n cymunedau

Hysbysu

- Gweithredu strategaeth sy'n dangos ein hymrwymiad i gyfathrebu da, yn fewnol ac yn allanol
- Helpu aelodau o'r cyhoedd i gysylltu â'r gwasanaeth priodol ynghylch materion heblaw am blismona
- Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ymateb yn Gymraeg a hyrwyddo defnydd o'r iaith

Cysylltu

- Cyflwyno system adrodd ar-lein ar gyfer trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Creu porth ar-lein i ddioddefwyr fel y gallant olrhain hynt yr ymchwiliad i'w trosedd
- Datblygu hygyrchedd ein Canolfan Gwasanaeth Cyhoeddus
- Gweithio'n lleol ac yn genedlaethol i wneud 101 yn fwy hygyrch i'r rhai ag anghenion amrywiol
- Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol a dulliau eraill i ymgysylltu'n well â'r cyhoedd



BLAENORIAETH 3

BYDDWN YN GWEITHIO I DDIOGELU AELODAU MWYAF AGORED I NIWED EIN CYMUNEDAU, DEALL PROBLEMAU A CHYMRYD CAMAU PRYDLON A CHADARNHAOL WRTH I FATERION GODI

Byddwn yn meithrin ein dealltwriaeth o'r materion a wynebwr gan ein cymunedau er mwyn darparu'r cymorth sydd ei angen arnynt, gan ddilyn egwyddorion ymyrraeth gynnar a chydweithredu â phartneriaid er mwyn nodi a helpu'r rhai sydd ei angen fwyaf.

Sut rydym yn gwneud hyn:

Gweithredu'r Cynllun i Fynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merchod

- Dechrau defnyddio model ariannu mwy cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol yn seiliedig ar anghenion
- Gwella ein cymorth i ddioddefwyr Trais ar sail Anrhydedd ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod
- Dysgu'r gwersi o'r datblygiadau MASH ym Mhontypridd a Chaerdydd a'u defnyddio mewn rhannau eraill o Dde Cymru
- Hyrwyddo rhaglen IRIS (Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch) a Chynghorwyr Trais Domestig Annibynnol seiliedig ar iechyd er mwyn gallu adnabod dioddefwyr yn gynharach
- Hyfforddi pob Swyddog yr Heddlu a phartner yn yr economi liw nos ar ymwybyddiaeth o bobl agored i niwed
- Datblygu rhaglen newydd gyda phrifysgolion De Cymru i adnabod a chefnogi myfyrwyr a all fod yn ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a'u Cam-drin

- Gweithredu argymhellion yr Adolygiad o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant
- Cynorthwyo Eiriolwyr Plant i weithio gyda dioddefwyr a gwella'r broses o adnabod plant sydd mewn perygl, gan weithio gydag asiantaethau partner i gynnig cymorth effeithiol

Pobl sy'n Agored i Niwed

- Defnyddio canfyddiadau'r adolygiad mewnol o Droseddau Casineb er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn cael y gwasanaeth mwyaf priodol ac yn fodlon ar yr ymateb a gânt
- Annog dioddefwyr troseddau casineb i roi gwybod am ddigwyddiadau fel y gallant gael y cymorth priodol
- Gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Get Safe Online a'r Comisiynydd Pobl Hŷn i ddiogelu pobl rhag sgamiau a thwyll, sy'n broblem gynyddol

Iechyd Meddwl ac Anabledd

- Gweithio gyda phartneriaid i wella cymorth a chyfathrebu rhwng yr heddlu a'r rhai ag anghenion iechyd meddwl neu anawsterau dysgu drwy gyflwyno cerdyn Cadw'n Ddiogel Cymru
- Cefnogi'r gwaith o gyflwyno mannau diogel, ar wahân i'r ddalfa, i unigolion a allai fel arall gael eu cadw o dan Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl



BLAENORIAETH 4

BYDDWN YN GWEITHIO I WNEUD Y SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL LEOL MOR EFFEITHIOL AC EFFEITHLON Â PHOSIBL ER MWYN DIWALLU ANGHENION DIODDEFWYR A LLEIHAU AILDROSEDDU

Mae angen i'r System Cyfiawnder Troseddol roi pwyslais clir ar ostwng troseddu gan ganolbwyntio ar atal troseddu ac aildroseddu tra'n lleihau niwed a risg i'r cyhoedd.

Sut rydym yn gwneud hyn:

Dioddefwyr

- Diwygio a datblygu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr gan sicrhau bod cymorth amlasiantaeth yn canolbwyntio ar y rhai sydd ei angen fwyaf
- Gwella canlyniadau i ddioddefwyr a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed drwy ddefnydd cynyddol o gamau adferol

Troseddwy'r

- Cynyddu nifer y troseddwy'r a gaiff eu tywys ar hyd llwybr arall ac o gyfeiriad y System Cyfiawnder Troseddol drwy fentrau fel Rhaglen Fraenaru Menywod a Rhaglen 18-25 oed
- Datblygu llwybrau i bobl â phroblemau iechyd Meddwl fel eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, yn hytrach na chael eu hunain yn y System Cyfiawnder Troseddol yn amhriodol
- Datblygu ac ehangu cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar er mwyn gostwng troseddu a gwella cyfleoedd bywyd y grŵp oedran 18-25
- Rhoi model WISDOM ar waith er mwyn gwella ein hymateb i anghenion a rheolaeth ein troseddwy'r mwyaf peryglus, gan sicrhau bod diogelwch dioddefwyr wrth wraidd ein hymateb
- Gweithredu canfyddiadau cynllun peilot cenedlaethol "DRIVE" Safe Lives sy'n anelu at sicrhau ymyrraeth gynnar wrth reoli tramgyddwyr trais domestig

Partneriaid

- Gweithio gyda'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r yng Nghymru (Carchardai, Profiannaeth a Gwasanaethau Dan Gontract) er mwyn meithrin dealltwriaeth gyffredin o flaenoriaethau a dull integredig cydlynol o reoli troseddwy'r o'r dechrau i'r diwedd ledled De Cymru
- Gweithio gyda phartneriaid i wireddu buddiannau'r rhaglen Trawsnewid Cyfiawnder Diannod
- Mireinio a chyflwyno gwasanaeth camddefnyddio sylweddau a gomisiynwyd ar y cyd sy'n canolbwyntio ar atal aildroseddu
- Datblygu dull partneriaeth o gefnogi pobl sy'n rhoi gwasanaethau lleol dan y straen mwyaf
- Meithrin gwell dealltwriaeth o effeithiau natur amrywiol newidiol ein cymunedau, gyda ffocws arbennig ar y cymunedau cynyddol o wladolion tramor o fewn De Cymru



BLAENORIAETH 5

BYDDWN YN CYFRANNU AT Y GOFYNIAD PLISMONA STRATEGOL AC YN PLISMONA DIGWYDDIADAU MAWR YN LLWYDDIANNUS

Mae Heddlu De Cymru yn heddlu strategol allweddol sy'n cefnogi digwyddiadau mawr o fewn ei ffiniau, gan wneud cyfraniad sylweddol at blismona terfysgoedd Llundain yn 2011, Gemau Olympaidd 2012, Uwchgynhadledd NATO yn 2014 a Rownd Derfynol. Cynghrair y Pencampwyr UEFA yn 2017.

Mae'r Gofyniad Plismona Strategol yn elfen bwysig o blismona ledled Cymru a Lloegr, gan nodi bygythiadau cenedlaethol allweddol y mae'n rhaid eu trechu a'r adnoddau sydd eu hangen i wneud hynny. Er y gall pryder y cyhoedd ynghylch y materion hyn ddibynnu ar ddigwyddiadau proffil uchel a sylw yn y cyfryngau, mae'r gwaith o'u plismona yn gofyn am ffocws parhaus ar y canlynol:

- Terfysgaeth
- Troseddu difrifol a chyfundrefnol
- Digwyddiadau seibrddiogelwch
- Argyfyngau Sifil
- Trefn Gyhoeddus a Diogelwch y Cyhoedd
- Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a'u Cam-drin

Mae cyfrannu at yr heriau hyn yn flaenoriaeth ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod Cymru yn cael ei gwasanaethu'n dda drwy drefniadau cydweithredol.

Sut rydym yn gwneud hyn:

- Trechu radicaliaeth yn ein cymunedau drwy ennyn ymddiriedaeth er mwyn hyrwyddo amgylchedd lle mae gan bobl yr hyder i roi gwybod am ymddygiad eithafol
- Cydweithio â heddluoedd eraill a phartneriaid er mwyn nodi dulliau effeithlon o ymateb i ddigwyddiadau mawr a chadw pobl yn ddiogel
- Nodi, deall ac ymdrin â bygythiadau a ddaw i'r amlwg fel trosedd ar-lein a gweithio gyda phartneriaid i godi ymwybyddiaeth
- Gweithio gyda phartneriaid i nodi a rhwystro masnachu mewn pobl, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a chamdriniaeth
- Sicrhau bod Byrddau Troseddu Difrifol a Chyfundrefnol lleol yn ymateb i faterion lleol
- Gweithio gyda phartneriaid, fel y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r yng Nghymru, er mwyn datblygu dulliau mwy effeithiol o reoli troseddwy'r cyfundrefnol



BLAENORIAETH 6

BYDDWN YN GWARIO EICH ARIAN YN DDOETH AC YN CEFNOGI EIN POBL ER MWYN DARPARU'R GWASANAETH PLISMONA GORAU POSIBL YN EICH CYMUNED

Gwnaethom brofi toriadau difrifol i Grant yr Heddlu gan Lywodraeth Ganolog. Mae hynny'n golygu bod penderfyniadau anodd yn anochel, ond hyd yn oed ar adeg anodd fel hon rydym yn cadw ein hymrwymiad i ddiogelu Plismona yn y Gymdogaeth yn Ne Cymru a gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod ein cymunedau'n ddiogel.

Cyflwynir adnoddau'n lleol ac yn strategol gyda gwasanaethau effeithiol ac effeithlon sy'n canolbwyntio ar angen.

Sut rydym yn gwneud hyn:

Pobl

- Datblygu strategaeth pobl sy'n rhoi'r bobl gywir yn y man cywir
- Diogelu'r nifer angenrheidiol o swyddogion yr heddlu hyd y gallwn tra'n gwneud arbedion
- Ceisio model plismona cynaliadwy yn Ne Cymru sy'n ystyried pwysau
- Hyrwyddo'r gwaith o recriwtio, cadw a dyrchafu merched a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn ein heddlu
- Recriwtio a hyfforddi mwy o Gwnstabiaid Cynorthwyol a Gwirfoddolwyr yr Heddlu
- Parhau i wella hyfforddiant a datblygiad swyddogion a staff i'w galluogi i gyflawni uchelgeisiau Cynllun yr Heddlu a Throseddu.
- Cefnogi mentrau sy'n gwella iechyd, lles a gwydnwch pobl yn eu hardal drwy ganolbwyntio'n benodol ar iechyd meddwl, gan gydnabod mai nhw yw ein hased mwyaf a'u bod yn allweddol i'n llwyddiant

Ystadau

- Gwario llai ar adeiladau tra'n sicrhau bod gennym ystad sy'n addas at y diben
- Cydweithredu ag eraill gan adeiladu ar lwyddiant y Gweithdy Fflyd ar y Cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Hyrwyddo cyflwyno Canolfan Gwasanaeth Cyhoeddus ar y cyd â Tân ac Iechyd
- Cydweithio ym maes caffael a chostau cefn swyddfa â heddluoedd eraill a phartneriaid yn y sector cyhoeddus

Cyfarpar

- Gwneud defnydd mwy effeithiol o dechnoleg drwy Raglen Fusion yn enwedig drwy ddata symudol, iR3 a chamerau a gaiff eu gwisgo ar y corff



CANLYNIADAU

BLAENORIAETH	1	2	3	4	5	6
Byddwn yn gostwng lefel troseddu, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol	✓	✓	✓	✓		
Byddwn yn galluogi ein cymunedau i fod yn ddiogel, yn hyderus ac yn gadarn	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Byddwn yn gwella'r ffordd y caiff anghenion pobl sy'n agored i niwed eu diwallu, gan eu gwneud yn fwy hyderus i roi gwybod am droseddau a lleihau aildroseddu	✓	✓	✓	✓		✓
Byddwn yn gwella pa mor effeithiol rydym yn defnyddio ein hadnoddau	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Byddwn yn sicrhau bod Heddlu De Cymru yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau a wasanaethir ganddo	✓	✓	✓			✓
Byddwn yn cryfhau ein gwaith partneriaeth, gan ddefnyddio'r egwyddorion cydweithio yn ein gwaith lleol a thrwy'r System Cyfiawnder Troseddol	✓		✓	✓		✓

18

Mae ein gallu i gyflawni'r canlyniadau hyn yn dibynnu ar waith partneriaeth effeithiol a bod ein blaenoriaethau yn glir a chyson; yng Nghymru, cafodd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu sefydlu o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol fel cyfrwng i hyrwyddo gwaith partneriaeth. Mae'r Prif Gwnstabl a minnau wedi manteisio ar y cyfle hwn i ddod yn aelodau llawn ac rydym wedi cymryd rhan weithredol yn y chwe bwrdd gwasanaethau

cyhoeddus ledled De Cymru. Er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu cynlluniau llesiant, rydym yn cynnal archwiliad o'r llinell sylfaen trosedd ac anhrefn a fydd yn bwydo i mewn i asesiad llesiant pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddwn hefyd yn parhau i hyrwyddo cydweithio â chyrrff Cyfiawnder Troseddol drwy Fwrdd Cyfiawnder Troseddol a Rheoli Troseddwy'r Integredig De Cymru, a thrwy gydweithio ar lefel Cymru gyfan.



AMCANION LLESIANT

Rydym wedi croesawu cydnabyddiaeth gan Weinidogion a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol bod ein dull o weithredu, a'r cyfle i ysgogi gweithgarwch drwy bartneriaethau diogelwch cymunedol lleol, yn cyd-fynd yn berffaith â nodau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol i greu cymunedau diogel, hyderus a chadarn. Amlinellir y cysylltiadau rhwng ein blaenoriaethau a nodau llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol isod:

BLAENORIAETHAU CYNLLUN YR HEDDLU A THROSEDDU	NODAU LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL						
	Cymru Lewyrchus	Cymru Gydnherth	Cymru Iachach	Cymru Mwy Cyfartal	Cymru o Gymunedau Cydlynus	Cymru â Diwylliant Bywiog Lle Mae'r Gymraeg yn Ffynnu	Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang
Byddwn yn gostwng ac yn atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn cadw pobl yn ddiogel ac yn hyderus yn eu cartrefi a'u cymunedau	✓	✓	✓	✓	✓		✓
Byddwn yn ymgysylltu â'n cymunedau, yn eu cynnwys ac yn eu hysbysu, gan weithio gyda phartneriaid o fewn llywodraeth leol, iechyd, tân a llywodraeth cymru i ddatblygu cydnherthedd	✓	✓	✓	✓	✓	✓	
Byddwn yn gweithio i ddiogelu aelodau mwyaf agored i niwed ein cymunedau, deall problemau a chymryd camau prydlon a chadarnhaol wrth i faterion godi	✓	✓	✓	✓	✓		
Byddwn yn gweithio i wneud y system cyfiawnder troseddol leol mor effeithiol ac effeithlon â phosibl er mwyn diwallu anghenion dioddefwyr a lleihau aildroseddau	✓	✓	✓	✓	✓		✓
Byddwn yn cyfrannu at y gofyniad plismona strategol ac yn plismona digwyddiadau mawr yn llwyddiannus	✓				✓	✓	✓
Byddwn yn gwario eich arian yn ddoeth ac yn cefnogi ein pobl er mwyn darparu'r gwasanaeth plismona gorau posibl yn eich cymuned	✓	✓		✓	✓		✓

GALLUOGI CYFLAWNI

Mae Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaeth Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) yn cynnal arolygiadau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr Heddlu'n darparu'r gwasanaeth a ddisgwylir ganddo. Mae'r broses hon wedi tynnu sylw at y meysydd canlynol sydd angen eu gwella southwalescommissioner.org.uk



Ein Cyhoedd

Bydd ein cymunedau'n hyderus bod Heddlu De Cymru yn gwrandao ar eu hanghenion ac yn ymateb iddynt.



Ein Plismona

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein dulliau gweithredol o gadw cymunedau'n ddiogel rhag bygythiadau cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg.



Ein Hadnoddau

Byddwn yn canolbwyntio ar y ffordd y gallwn ddarparu ein gwasanaethau am lai o gost a diwallu anghenion datblygol cymunedau, gan wneud y defnydd gorau o'n holl adnoddau nad ydynt yn rhai staff, gan gynnwys technoleg.



Ein Pobl

Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod gennym y bobl gywir, sydd â'r sgiliau a'r galluoedd cywir i ddiwallu anghenion ein cymunedau.





Ein Partneriaid

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yn unol â'n gweledigaeth, yn enwedig lle mae gennym ddiben cyffredin clir.

Yr Her Ariannol

Mae effeithiau cyfunol toriadau grant a chwyddiant wedi arwain at darged arbedion o £58m rhwng 2010/11 a 2019/20



HEDDLU	TRETH GYNGOR BAND D 2017/18
Gogledd Cymru	£249.21
Gwent	£228.24
De Cymru	£218.24
Dyfed-Powys	£213.87

De Cymru sydd â'r tâl praesept isaf am blismona yng Nghymru. Mae ein strategaeth o gynyddu'r praesept ryw fymryn (llai nag 20c yr wythnos i lawer o aelwydydd) yn hanfodol er mwyn diogelu niferoedd swyddogion yr heddlu.

24 AWR


O FEWN HEDDLU DE CYMRU

BOB DYDD MAE HEDDLU DE CYMRU YN DELIO AG ODDEUTU...



O ALWADAU I'R GANOLFAN
GWASANAETH CYHOEDDUS

9
TROSEDD
RYWIOI



LEFEL Y GALW
YN YMWNEUD Â
THROSEDD

25
O BOBL AR GOLL



O BOBL YN MYND
DRWY'R DDALFA

33
O YMOSODIADAU

21



117

O ACHOSION O
ROI GWYBOD
AM YMDDYGIAD
GWRTHGYMDEITHASOL

98

O ACHOSION YN
GYSYLLTIEDIG Â
CHAM-DRIN
DOMESTIG



O ALWADAU LLES
DIOGELWCH Y
CYHOEDD

AC MAE'N PARHAU I DDELIO Â THUA...

1,789

O DROSEDDWYR A REOLIR
O DAN MAPPA
(TREFNIADAU AMLASIANTAETHOL
AR GYFER DIOGELU'R CYHOEDD)

1,591

PLANT A GEFNOGIR
AR Y GOFRESTR
AMDDIFFYN PLANT

11,311

O AD-DDIODDEFWYR
CAM-DRIN
DOMESTIG

PLISMONA DE CYMRU

Mae plismona yn gymhleth ac yn heriol o ran ei natur; bydd nifer fawr o ffactorau'n effeithio ar yr hyn sy'n ofynnol o gyflwr yr economi i'r tueddiadau technolegol diweddaraf, ond eto i gyd disgwylir i heddluoedd addasu ac ymateb yn effeithiol i'r heriau hyn.

Mae Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaeth Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) yn cynnal arolygiadau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr Heddlu'n darparu'r gwasanaeth a dd disgwylir ganddo. Mae'r broses hon wedi tynnu sylw at y meysydd canlynol sydd angen eu gwella:

EFFEITHIOLRWYDD	EFFEITHLONRWYDD	DILYSRWYDD
Diogelu mewn partneriaeth	Gweithio cydweithrediadol	Sut i wneud cwyn
	Galwadau di-frys	


CAMFANTEISIO'N RHYWIOL AR BLANT A'U CAM-DRIN, IECHYD MEDDWL, GWERTH AM ARIAN, RHEOLI GWYBODAETH A GALW

22

Mae'r Ysgrifennydd Cartref hefyd yn nodi bygythiadau y mae'n rhaid i heddluoedd allu delio â hwy:



Mae'r wybodaeth hon yn dangos yn gyflym yr hyn a dd disgwylir gennym fel gwasanaeth ond rhaid ei hystyried yng nghyd-destun ein perfformiad a'n taith ein hunain fel y gwelir yn y graff isod:



Ni fu De Cymru erioed yn ardal fwy diogel i fyw, gweithio neu ymweld â hi gyda'r gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr ymhlith y gorau yng Nghymru a Lloegr.

Amcangyfrif o nifer y troseddau a gyflawnwyd yn ardal HDC

Amcangyfrif o nifer y troseddau y rhoddwyd gwybod i HDC amdanynt

Troseddau a gofnodwyd o fewn Heddlu De Cymru

YR HYN Y MAE'R CYHOEDD YN EI DDWEUD WRTHYM...

Mae ymyrraeth gynnar effeithiol a champau gweithredu prydlon a chadarnhaol i ostwng troseddu yn golygu gweithio mewn partneriaeth â chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus. Ceir meysydd clir o orgyffwrdd a chanlyniadau a rennir. Drwy ddeall ffocws craidd partneriaid gellir sicrhau bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu drwy ein blaenoriaethau ein hunain, gan ein gwneud i gyd yn fwy effeithiol ac effeithlon wrth gyflawni ein nodau.

PRIF BRYDERON EIN PARTNERIAID YW:

CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU		CEFNOGI POBL IFANC		DIOGELU POBL AGORED I NIWED	
CAM-DRIN DOMESTIG	IECHYD MEDDWL	YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL		GOSTWNG AILDROSEDDU	
TERFYSGAETH		TROSEDDAU TREISGAR		CAMFANTEISIO'N RHYWIOL AR BLANT	
DIOGELWCH AR Y FFYRDD		TROSEDDAU CAFFAELGAR		CANFYDDIAD Y CYHOEDD	

YR HYN Y MAE EIN PARTNERIAID YN EI DDWEUD WRTHYM...

Mae deall ac ymateb i anghenion ein cymunedau yn ffocws allweddol i Heddlu De Cymru. Gofynnwn am eu mewnbwn yn rheolaidd er mwyn ein helpu i ganolbwyntio ar beth sy'n bwysig. Dyma rai o'r pethau y maent yn eu dweud wrthym:

CYTUNDEB Y CYHOEDD Â BLAENORIAETHAU PRESENNOL

Sicrhau ymateb cyflym a chymesur i droseddu	94%
Lleihau achosion o drais a mynd i'r afael ag achosion troseddu	94%
Gwneud cymunedau yn ddiogel a sicrhau bod y cyhoedd yn teimlo'n fwy diogel	93%
Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda phartneriaid	91%
Lleihau biwrocratiaeth a gwneud i bethau ddigwydd	90%
Sicrhau bod dioddefwyr wrth wraidd ein gwaith	89%
Gwneud y system cyfiawnder troseddol yn fwy effeithiol	88%
Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched	87%
Gostwng troseddu yn y grŵp oedran 18-25	86%
Mabwysiadu dull yn seiliedig ar dystiolaeth o ran 'yr hyn sy'n gweithio'	86%

DWYN YR HEDDLU I GYFRIF

Cyflwynwyd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2011, gan newid y broses o lywodraethu plismona a'r berthynas ag asiantaethau partner yn sylweddol.

Prif gyfrifoldeb y Comisiynydd yw sicrhau y parheir i ddarparu gwasanaeth yr heddlu effeithiol ac effeithlon. Mae hynny'n golygu gostwng troseddu a chydweithio ar flaenoriaethau cytûn yn ogystal â dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif. I'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, golyga hyn arweinyddiaeth ddeinamig sy'n mynd y tu hwnt i blismona er mwyn ymgysylltu â'r sector cyhoeddus yn gyffredinol ledled De Cymru. Daw hyn oll ynghyd ym Mwrdd Strategol y Comisiynydd.

Y Gwir Anrh Alun Michael

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Tŷ Morgannwg

Pencadlys yr Heddlu

Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU

01656 869366

commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk

southwalescommissioner.org.uk



De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

